**Julie James AC / AM**
**Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg**
**Deputy Minister for Skills and Technology**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P/JJ/0582/15

William Graham AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Menter a Busnes

12 Tachwedd 2015

Annwyl William,

**Adroddiad ar Gyfleoedd Gwaith i Bobl dros 50 oed**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 21 Hydref ynghylch y cyfarfod diweddar o'r Pwyllgor Menter a Busnes y bûm iddo, pan drafodwyd argymhellion yr adroddiad ar gyfleoedd gwaith i bobl dros 50 oed. Rwy'n falch fod yr aelodau'n teimlo bod y sesiwn yn un ddefnyddiol a chynhyrchiol.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddweud unwaith eto mai'r rhesymeg dros dderbyn cyfran helaeth o argymhellion y Pwyllgor mewn egwyddor yw fy mod yn mynd ati i ddeall, o safbwynt ymarferol, sut mae'r argymhellion yn cyd-fynd â'r hyn sy'n digwydd eisoes o ganlyniad i'n polisi cyffredinol ni ar gyfer cyflogaeth a sgiliau.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rwyf wedi dod i gyfarfodydd y Pwyllgor i roi tystiolaeth ynglŷn â phobl hŷn yng Nghymru ac rwy'n gwbl ymwybodol o'r materion sydd wedi cael eu trafod ac a gyflwynwyd yn ddiweddarach yn adroddiad y Pwyllgor. Roedd fy nghyfarfod diweddaraf â Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn hynod ddefnyddiol ac rwy'n hyderus ein bod yn rhannu'r un safbwynt o ran sut orau i fwrw ymlaen â nifer o argymhellion y Pwyllgor. Rwy'n cyfarfod â'r Comisiynydd eto fis nesaf.

Un o'r meysydd lle rwyf yn arbennig o awyddus i weld gwaith yn dechrau yw gwybodaeth am y farchnad lafur. Mae hwn yn fater rydych chithau'n ei grybwyll yn eich llythyr. O ran hyn, gallaf gadarnhau nad oes unrhyw fwriad dibynnu ar y Comisiynydd Pobl Hŷn nac ar y trydydd sector i lenwi unrhyw fylchau yn ein gwybodaeth bresennol. Ar hyn o bryd, bwriadaf weithio â Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru a'r gwahanol grwpiau sydd â buddiant yn y mater i ddirnad lle mae'r bylchau yn y wybodaeth bresennol cyn asesu sut orau i'w llenwi nhw. Credaf y bydd cael gwybodaeth well ynglŷn â'r farchnad lafur yn darparu tystiolaeth y gellir ei ddefnyddio fel sylfaen ar gyfer camau polisi a gymerir yn y dyfodol, ac yn sail i ystyried argymhellion eraill y mae'r Pwyllgor yn eu gwneud.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Julie.James@Wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

O ran yr argymhelliad penodol ynglŷn â chyflwyno strategaeth sgiliau ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru, rwy'n dal i fod o'r farn y gallai darparu fersiynau gwahanol o'n polisïau ar gyfer gwahanol grwpiau leihau effaith y gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud, o bosibl. Dull mwy ymarferol o symud ymlaen, ac un rwy'n bwriadu ei ddefnyddio, yw deall sut y gallwn rannu gwybodaeth ynglŷn â'n polisïau yn fwy effeithiol â phobl hŷn Cymru a sut y gallwn hyrwyddo manteision cael pobl hŷn yn y gweithlu ymhlith cyflogwyr. I'r diben hwn, rwyf eisoes wedi cytuno i gefnogi cynllun cyfathrebu Grŵp Cynghori Arbenigol Heneiddio'n Dda yng Nghymru. Mae'r grŵp yn gyfrifol am adolygu cyfleoedd dysgu a gweithio i bobl hŷn. Bydd fy swyddogion yn gweithio gyda'r grŵp i ddatblygu cysylltiadau er mwyn hyrwyddo'r gwasanaethau sydd yn cael eu cynnig i annog pobl hŷn a chyflogwyr i ystyried hyfforddiant.

Yn olaf, nodaf y pwyntiau rydych yn eu codi ynghylch yr ardoll ar brentisiaethau a datganoli cymorth cyflogaeth. Rwy'n croesawu'r cyfle i ddod yn ôl at y Pwyllgor y flwyddyn nesaf i drafod sut y mae'r camau rydym yn eu cymryd i weithredu ein polisïau yn datblygu.

Yn gywir

Julie James

**Julie James AC / AM**
Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg
Deputy Minister for Skills and Technology